Cofnodion Cyfarfod y **PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU**

a gynhaliwyd trwy drefniant hybrid ar

ddydd Mercher, 11 Ionawr 2023

Yn bresennol: Y Cynghorydd Rhodri Davies (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Gethin Davies, Marc Davies, Meirion Davies, Ifan Davies, Rhodri Evans, Geraint Wyn Hughes, Hugh R M Hughes, Chris James, Ceris Jones, Gareth Lloyd a Carl Worrall

Hefyd yn Bresennol:- Y Cynghorydd Gwyn James

Hefyd yn bresennol: Mr Russell Hughes-Pickering, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio, Mrs Catrin Newbold - Rheolwr Gwasanaeth (Rheoli Datblygu), Mr Jonathan Eirug – Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu'r Gogledd, Mr Sam Pugh – Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu'r De, Ms Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Democrataidd, Mrs Ffion Lloyd- Cyfreithiwr a Mrs Dana Jones, Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Safonau

(10:00am-11:20am)

1 Personol

Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb i'r cyfarfod**.**

2 Ymddiheuriadau

Roedd y Cynghorydd Sian Maehrlein wedi ymddiheuro am nad oedd modd iddi fynychu'r cyfarfod.

3 Datgan buddiannau personol a/neu fuddiannau sy'n rhagfarnu

Datgelodd y Cynghorydd Ifan Davies fudd personol ac sy'n rhagfarnu yng Nghais A211191.

Datgelodd Mrs Catrin Newbold fudd personol ac sy'n rhagfarnu yng Nghais A220476.

4 Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2022

PENDERFYNWYD cadarnhau bod Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2022 yn gywir.

Materion yn codi

Dim**.**

5 Ceisiadau cynllunio a ohiriwyd yng Nghyfarfodydd blaenorol y Pwllgor

Dim.

6 Ceisiadau Datblygu, Hysbysebu, Statudol a'r Awdurdod Lleol

Ystyriwyd Adroddiad Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio

ynghylch Ceisiadau datblygu, hysbysebu, statudol a'r awdurdod lleol:-

A210592 Codi annedd, Plot tu ôl Brynmorwel, Brynhoffnant, Llandysul

CYFEIRIO'R cais i'r Panel Archwilio Safle yn unol â Pharagraff 4 y meini prawf a fabwysiadwyd gan y Cyngor.

Anerchodd Mrs Helen Ashby-Ridgway (Asiant) y Pwyllgor yn unol â'r weithdrefn Weithredol ar gyfer Aelodau'r Cyhoedd sy'n annerch y Pwyllgor Reoli Datblygu

A211168 Datblygu sylfeini er mwyn lleoli cabanau, sy'n dod dan y diffiniad o garafannau sefydlog, codi adeilad er mwyn cadw offer, ac adeiladu pyllau, gyda'r gwaith cysylltiedig er mwyn cael mynediad, parcio ceir, tirlunio a seilwaith draenio, Tir i'r De o Seven Springs Lodge Park, Llanon

CYMERADWYO'R cais yn unol ag amodau.

Anerchodd Mrs Gwawr Edwards y Pwyllgor yn unol â'r weithdrefn Weithredol ar gyfer Aelodau'r Cyhoedd sy'n annerch y Pwyllgor Reoli Datblygu

A211191 Newid defnydd tir i ddefnydd twristiaeth, er mwyn caniatáu codi pâr o gabanau i'w defnyddio fel llety gwyliau, ynghyd â'r gwaith cysylltiedig gan gynnwys lleoedd parcio a gosod systemau draenio, Hafodhir Uchaf, Bethania, Llanon

CYFEIRIO'R cais i'r Panel Archwilio Safle yn unol â Pharagraffau 3, 4 a 5 y meini prawf a fabwysiadwyd gan y Cyngor.

Anerchodd Mrs Gwennan Jenkins (Asiant) y Pwyllgor yn unol â'r weithdrefn Weithredol ar gyfer Aelodau'r Cyhoedd sy'n annerch y Pwyllgor Reoli Datblygu

A220476 Datblygiad Preswyl, Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol Aberporth, Y Clwb, Parc-llyn, Aberteifi

CYMERADWYO'R cais yn unol ag amodau a Rhwymedigaeth Adran 106 am dai fforddiadwy a chyfraniad i le agored cyhoeddus.

---

7 Ceisiadau Cynllunio y bu i Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio ymdrin â nhw:-

PENDERFYNWYD nodi rhestr y ceisiadau cynllunio y bu i Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio ymdrin â nhw.

8 Apeliadau Cynllunio

Dim.

Cadarnhawyd y cofnodion yng nghyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 08 Chwefror 2023

Cadeirydd:-_____

Dyddiad:_____